COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDF TRWYDDEDU 2003 A GYNHALIWYD YN REMOTELY VIA BUSINESS SKYPE DYDD MAWRTH, 6 HYDREF 2020, AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd DRW Lewis – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| RJ Collins | PA Davies | A Hussain | RM James |
| MJ Kearn | JE Lewis | AA Pucella | G Thomas |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Julie Ellams | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Andrea Lee | Uwch Cyfreithiwr |
| Yvonne Witchell | Rheolydd Tîm Trwyddedu |

21. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim

22. DEDDF TRWYDDEDU 2003 A DEDDF GAMBLO 2005 – DIRPRWYO SWYDDOGAETHAU PDF EICON

Cyflwynodd y Rheolwr Tîm Trwyddedu adroddiad ar y trefniadau arfaethedig ar gyfer awdurdodi swyddogion o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005 a chadarnhaodd drefniadau ar gyfer ffurfio is-bwyllgorau yn dilyn Cyfarfod Blynyddol y Cyngor 2020.

Er budd perfformiad effeithiol, esboniodd y Rheolwr Tîm Trwyddedu y byddai cyfrifoldeb am awdurdodi swyddogion i weinyddu gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005, yn cael ei ddirprwyo i'r Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Rheoleiddio er mwyn i'r Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Rheoleiddio ymdrin ag achosion o dan y Deddfau hynny.

Cynigiwyd hefyd, lle bo hynny'n briodol, y byddai'r Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio, y Rheolwr Tîm Trwyddedu (Pen-y-bont ar Ogwr a'r Fro), yr Uwch Swyddog Trwyddedu (Technegol), yr Uwch Swyddog Gorfodi Trwyddedu a'r Swyddog Polisi Trwyddedu yn cael eu hawdurdodi i gydnabod a chyhoeddi Hysbysiadau sy'n ymwneud â Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro; i roi, gwrthod, atal trwyddedau, cofrestriadau, tystysgrifau, hawlenni a hysbysiadau, i weithredu'r darpariaethau perthnasol mewn perthynas â throseddau, adolygiadau neu ofynion eraill; yn unol ag unrhyw un o'r rheolau, y rheoliadau a/neu'r Gorchmynion a wnaed o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005 (fel y'i diwygiwyd). Dim ond pan fyddent ar gael i Gyngor Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr yn unol ag adran 113 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 y byddai'r awdurdodiad mewn perthynas â'r swyddogion trwyddedu yn dod i rym.

Esboniodd y Rheolwr Tîm Trwyddedu bod gofyn i'r Pwyllgor hefyd gymeradwyo'r trefniant presennol ynghylch ffurfio Is-bwyllgorau pellach sy'n cynnwys tri Aelod o Bwyllgor Deddf Trwyddedu 2003 i bennu ceisiadau o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005. Cynigiwyd y dylai Is-bwyllgorau Deddf Trwyddedu 2003 gael eu cadeirio gan Gadeirydd neu Is-gadeirydd Pwyllgor Deddf Trwyddedu 2003 lle bo hynny'n bosibl. Pe na bai'r Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd yn gallu bod yn bresennol, byddai cadeirydd yn cael ei ethol.

PENDERFYNWYD:

- Cymeradwyodd y Pwyllgor ffurfio dau banel yn eistedd gan ddilyn trefn rota. Bydd pob Pwyllgor yn cynnwys saith Aelod o'r Pwyllgor Trwyddedu ac yn cael ei gadeirio gan Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu lle bo hynny'n bosibl.

- Is-bwyllgor Trwyddedu (A) - Y Cynghorwyr D Lewis (Cadeirydd), T Beedle, R Collins, M Kearn, A Pucella, J Williams, G Thomas

- Is-bwyllgor Trwyddedu (B) - Y Cynghorwyr P Davies, A Hussain, M James, B Jones, J Lewis, J McCarthy, A Williams

- Os nad yw’r Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd yn gallu dod i’r cyfarfod o’r is-bwyllgor priodol, yna bydd cadeirydd yn cael ei ethol o'r rhai sy'n bresennol. Byddai'r Is-bwyllgorau Trwyddedu yn cyflawni swyddogaethau trwyddedu, gan gynnwys trwyddedu tacsis a masnachu ar y stryd fel y nodir yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

23. MATERION BRYS

Dim